**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd 30ain Ionawr 2012 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng E C George (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng D Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng G O Williams | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Dingle (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. J A Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| C Everett | Clerc |
| M Halstead | Pennaeth Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| L Williams | Swyddfa Archwilio Cymru |
| V DeZouche | KPMG |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 26 Medi 2011 fel cofnod cywir. Nid oedd materion yn codi.

3 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI A PHOLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

3.1 Diben yr adroddiad oedd cyflwyno i'r Aelodau y Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Fuddsoddi a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2012/13. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau bod strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau yn cael eu craffu yn effeithiol, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu canfyddiadau.

3.2 Ymhelaethodd Sandra Forrest ar yr adroddiad gyda chymorth cyflwyniad Powerpoint a oedd yn esbonio'r gwahanol agweddau ar y dangosyddion darbodus, strategaeth rheoli'r trysorlys, y strategaeth fuddsoddi a'r polisi darpariaeth isafswm refeniw.

3.3 Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan yr Aelodau am y strategaethau a oedd yn yr adroddiad er mwyn cael eglurder yn eu dealltwriaeth, ac wedi iddynt graffu ar yr adroddiad yn fanwl roeddent yn fodlon eu bod yn gallu argymell cynnwys yr adroddiad i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

3.4 Nodwyd bod y gwariant cyfalaf amcangyfrifiedig yn sylweddol uwch yn 2013/14 oherwydd y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith ar brosiect Wrecsam yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

3.5 Esboniodd Sandra Forrest fod benthyciadau tymor byr yn well yn yr hinsawdd economaidd presennol, ac roedd y rhain ar gael ar gyfraddau llosg isel gan awdurdodau lleol eraill. Roedd y partïon i gontract (banciau/cymdeithasau adeiladu) a ddefnyddid yn cael eu monitro'n ofalus er mwyn sicrhau bod eu graddiadau uchel yn parhau i sicrhau diogelwch y cronfeydd a fuddsoddid gyda hwy.

3.6 Eglurodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y strategaeth ystadau yn ei lle ers nifer o flynyddoedd; roedd holl adeiladau'r GTA wedi cael eu hasesu, a bu rhaglen o uwchraddio fel yr oedd angen, felly bydd y symiau i'w gwario ar adeiladau yn y dyfodol yn sylweddol is gan mai dim ond costau cynnal a chadw fydd eu hangen. Fodd bynnag, roedd prosiect Wrecsam yn dal ar ôl, ac roedd Tywyn a Nefyn i fod gael gorsafoedd newydd yn y dyfodol agos. Cytunwyd i gyflwyno adroddiad i atgoffa'r Aelodau am y strategaeth gyfalaf i'r cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Mawrth.

3.7 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob un o'r pedwar elfen a oedd yn yr adroddiadau hyn, a'u hargymell i'r Awdurdod Tân ac Achub:**

**(i) Y Dangosyddion Darbodus;**
**(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2012/13;**
**(iii) Y Strategaeth Fuddsoddi;**
**(iv) Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw**
**a**
**(v) hefyd, cyflwyno adroddiad i atgoffa'r Aelodau am y Strategaeth Gyfalaf yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth.**

4 STRATEGAETH ARCHWILIAD MEWNOL 2008 HYD AT 2012

4.1 Cyflwynodd Keith Williams yr adroddiad gan egluro i Aelodau mai strategaeth gyffredinol y gwaith Archwilio Mewnol yw:

"Cyflwyno cynllun archwilio yn seiliedig ar risg mewn modd proffesiynol, annibynnol, i ddarparu barn ar y lefel o sicrwydd y gellir ei roi i'r sefydliad ar amgylchedd y rheolaeth fewnol, a gwneud argymhellion i'w wella."

4.2 Mae'r rhaglen bresennol o waith wedi bod yn mynd rhagddi ers 2008, a bydd yn dod i ben yn 2012. Roedd 50 o ddiwrnodiau wedi eu neilltuo bob blwyddyn gan y Tîm Archwilio Mewnol ar gyfer y gwaith, ac fel arfer bydd yn cynnal 4 neu 5 archwiliad y flwyddyn. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, bydd swyddogion yn adnabod meysydd pryder, a bydd y rhain yn cael blaenoriaeth dros y gwaith archwilio a gynlluniwyd.

4.3 Cafodd yr Aelodau eu sicrhau bod archwiliadau dilynol yn cael eu cynnal 6-8 mis yn dilyn yr archwiliad cychwynnol er mwyn sicrhau bod pob argymhelliad wedi ei roi ar waith. Cadarnhawyd bod yr archwiliad o gronfeydd lles wedi cynnwys archwilio cyfrifon ariannol digwyddiadau codi arian megis diwrnodiau golchi ceir Elusen y Diffoddwyr Tân.

4.4 Derbyniodd rhai meysydd, megis llywodraethu corfforaethol, raddiad risg 'A', ac maent yn cael eu harchwilio gan KPMG; caiff y meysydd hyn eu monitro'n agos yn rheolaidd, ac mae'r tîm Archwilio yn cynnal eu gwybodaeth o'r sefydliad trwy fonitro papurau pwyllgorau yn anffurfiol, a gweithio'n agos gyda KPMG.

4.5 **PENDERFYNWYD derbyn y Strategaeth Archwiliad Mewnol 2008-2012.**

5 LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

5.1 Yn absenoldeb cynrychiolydd o KPMG yn y cyfarfod, cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn rhoi crynodeb o'r materion allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd, ac mae'n ddogfen sy'n sefyll ar ei phen ei hun, ond bydd yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol.

5.2 Roedd yr archwilwyr yn falch o'r ffordd yr oedd y Tîm Cyllid wedi trosglwyddo i'r dull safonau'r IFRS newydd o lunio'r datganiad o gyfrifon, a'u bod wedi eu cwblhau a'u cyflwyno i'r Aelodau eu cymeradwyo ar 26ain Medi 2011. Fodd bynnag, roedd trosglwyddo i'r safon adrodd newydd wedi cymryd mwy o amser nag a ddisgwylid, ac roedd newidiadau'n cael eu gwneud hyd at y diwrnod yr oedd yr adroddiad i fod i'w roi i'r Aelodau. Roedd yr oedi wrth gwblhau'r cyfrifon wedi golygu bod yr adroddiad a oedd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, i'w gynnwys yn y Cyfrifon Llywodraeth Gyfan, yn hwyr, ac ni chafodd ei anfon i'r archwilwyr tan 27ain Medi. Roedd yr oedi hwn wedi golygu bod yr archwilwyr wedi methu cyflwyno'r adroddiad archwiliedig i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad terfynol, sef 30ain Medi. Mynegwyd pryder gan y Cyng. D Kelly fod oedi wedi bod wrth gyflwyno'r cyfrifon i'r archwilwyr. Esboniwyd mai sefyllfa unigryw oedd hon oherwydd y symud i'r dull newydd, a nawr bod templed yn ei le, ni fyddai hyn yn broblem mewn blynyddoedd i ddod.

5.3 Un o'r awgrymiadau a wnaed yn y Llythyr oedd y gallai'r tîm archwilio mewnol gyflwyno canfyddiadau eu harchwiliadau i'r Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd. Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei bod wedi trafod y mater gyda'r archwilwyr, a chan fod y pwyllgor yn grŵp strategol o aelodau, cytunwyd y byddai crynodeb o'r canfyddiadau'n cael eu cyflwyno yn y dyfodol i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr.

5.4 Roedd y Llythyr yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi cryfhau ei broses rheoli risg trwy ddatblygu Cofrestr Risg Corfforaethol, a bydd hon yn cael ei hadolygu bob blwyddyn gan y Pwyllgor Archwilio.

5.5 Llongyfarchwyd y swyddogion gan y Cadeirydd am y gwaith a wnaed er mwyn sicrhau barn ddiamod ar y cyfrifon.

5.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol; a**

**(ii) nodi y bydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol.**